



Wales Centre for Public Policy
Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru



Papur hysbysu tystiolaeth

Llesiant diwylliannol

www.wcpp.org.uk

Llesiant diwylliannol



Sut gallwn ni ddiffinio
a chysyniadu llesiant
diwylliannol?



Pa nodweddion
sy'n cyfrannu at
llesiant mewn
cymuned?



Sut mae cymryd rhan
mewn gweithgareddau
diwylliannol yn effeithio
ar llesiant goddrychol?



Rôl asedau
diwylliannol
anniriaethol



Canfyddiadau
cyffredinol a
chyfraddau
cyfranogiad



Effaith
gweithgareddau
penodol ar llesiant
goddrychol



Treftadaeth
naturiol a
hamdden
awyr agored



Y Gymraeg
a llesiant
diwylliannol



A yw canlyniadau
llesiant yn wahanol
ar gyfer gwahanol
grwpiau?



Beth yw'r bylchau
tystiolaeth, ansicrwydd
a'r meysydd i'w
harchwilio?



Sut gellir defnyddio
llesiant diwylliannol
i gyflawni amcanion
llesiant?

Cyflwyniad

Mae'n ofynnol i fyrddau gwasanaethau cyhoeddus asesu llesiant pobl eu hardaloedd bob pum mlynedd, yn unol â chylchoedd etholiadau lleol. Gofynnwyd i Ganolfan Polisi Cyhoeddus Cymru gefnogi'r broses hon drwy baratoi sesiynau briffio sy'n edrych ar dueddiadau a thystiolaeth genedlaethol ar draws meysydd **llesiant a chydraddoldeb, llesiant diwylliannol, ac effeithiau Covid-19 a Brexit ar lesiant**.

Mae'r papur briffio hwn yn canolbwyntio ar lesiant diwylliannol. Dylid ei ddarllen ochr yn ochr â'r ddwy sesiwn friffio arall yn y gyfres. Bydd y papur briffio hwn yn ceisio ateb chwe chwestiwn allweddol:

1. Sut gallwn ni ddiffinio a chysyniadu llesiant diwylliannol?
2. Pa nodweddion diwylliannol sy'n cyfrannu at lesiant mewn cymuned?
 - 2.1 Rôl asedau diwylliannol anniriaethol
3. Sut mae cymryd rhan mewn gweithgareddau diwylliannol yn effeithio ar lesiant goddrychol?
 - 3.1 Canfyddiadau cyffredinol a chyfraddau cyfranogiad
 - 3.2 Effaith gweithgareddau penodol ar lesiant goddrychol
 - 3.3 Treftadaeth naturiol a hamdden awyr agored
 - 3.4 Y Gymraeg a llesiant diwylliannol
4. A yw canlyniadau llesiant yn wahanol ar gyfer gwahanol grwpiau?
5. Beth yw'r bylchau tystiolaeth, ansicrwydd a'r meysydd i'w harchwilio?
6. Sut gellir defnyddio llesiant diwylliannol i gyflawni amcanion llesiant?

Canfyddiadau ac argymhellion allweddol

Mae llesiant diwylliannol yn faes ymchwil sy'n dod i'r amlwg, gyda nifer o agweddau penodol y gallai Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ddymuno canolbwyntio arnynt wrth ystyried sut i fynd i'r afael â'r thema hon:

1. Statws **asedau diwylliannol anniriaethol** yn y gymuned, eu rôl o ran llesiant cymunedol, a sut gellir eu defnyddio i gynyddu llesiant.
2. **Cyfraddau cyfranogiad mewn celfyddydau, diwylliant, treftadaeth a chwaraeon** ac unrhyw anghydraddoldeb hysbys, a sut gellir mynd i'r afael â hwy.
3. **Cyfleoedd trawsbynciol** i ddefnyddio gweithgareddau diwylliannol neu 'lens' llesiant diwylliannol i ysgogi gwelliannau llesiant mewn meysydd eraill fel iechyd neu ddatblygu economaidd.
4. Manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i **feithrin llesiant diwylliannol drwy weithgareddau cyfranogol** sy'n datblygu cyfalaf cymdeithasol ac ymdeimlad o le a bod ynghyd.

Argymhellwn ni y dylai byrddau gwasanaethau cyhoeddus gymryd y camau canlynol:

1. Nodi **arbenigedd lleol** (a allai gynnwys, er enghraifft, clerod tref; offeiriaid plwyf; haneswyr lleol a chymdeithasau hanesyddol) i hwyluso cysylltiadau cymunedol a nodi asedau diwylliannol anniriaethol lleol a chefnogi grwpiau sy'n seiliedig ar fannau a grwpiau sy'n seiliedig ar ddiddordeb. Mae'r dull hwn hefyd wedi ei argymhell yn Havers et al. (2021) fel ffordd o fynd i'r afael ag unigrwydd ac arwahanrwydd cymdeithasol yn dilyn pandemig Covid-19, ac felly mae'n cynnig manteision trawsbynciol.
2. Nodi **darparwyr celfyddydau, diwylliant, gweithgareddau, treftadaeth a chwaraeon lleol**, yn enwedig y rhai sydd â chysylltiad agos â chymunedau lleol. Bydd yn bwysig iawn asesu'r angen yn dilyn pandemig Covid-19, a chynnig cymorth lle bo hynny'n bosibl.
3. **Mapio darparwyr lleol o ran ardaloedd o amddifadedd neu gyfranogiad is** i weld lle mae bylchau yn y ddarpariaeth, a gweithredu **ymatebion sy'n benodol i fannau ac yn y gymuned** i sicrhau bod y ddarpariaeth yn diwallu'r angen ac yn mynd i'r afael ag anghydraddoldebau.
4. Sicrhau bod llesiant diwylliannol, gan gynnwys treftadaeth ddiwylliannol a naturiol, yn **rhan o strategaethau iechyd economaidd a chyhoeddus** i wneud y mwyaf o'r potensial ar gyfer manteision trawsbynciol. Gallai hyn gynnwys defnyddio dulliau prisio ehangach sy'n cipio gwerthoedd nad ydynt yn cael eu defnyddio neu fanteision cymdeithasol ehangach sy'n gysylltiedig ag asedau diwylliant a threftadaeth (Bakhshi et al., 2015; Sagger et al., 2021).
5. Yn bwysicaf oll, ystyried **problemau o safbwynt llesiant diwylliannol**, gan fod cefnogi gweithgareddau diwylliannol a llesiant cymunedol yn gallu cynnig atebion i broblemau eraill. Er enghraifft, gall cefnogi asedau diwylliannol anniriaethol feithrin cymunedau cryfach, a all ddarparu adnoddau i fynd i'r afael ag unigrwydd, arwahanrwydd cymdeithasol a phroblemau cymunedol eraill.

1. Sut gallwn ni ddiffinio a chysyniadu llesiant diwylliannol?

Mae llesiant diwylliannol yn bwnc sy'n dod i'r amlwg i'w ystyried. Yng Nghymru, mae 'llesiant diwylliannol' wedi ei restru yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 fel un o'r meysydd y mae gofyn i gyrff cyhoeddus eu gwella yng Nghymru. Mae'n ymddangos bod y nodau llesiant 'Cymru o gymunedau cydlynus' a 'Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu' yn cynnwys themâu llesiant diwylliannol – er nad yw'r term wedi ei ddiffinio yn y Ddeddf ([Llywodraeth Cymru, 2015](#)).

Mae nifer o ddangosyddion llesiant cenedlaethol yn gysylltiedig â 'llesiant diwylliannol', gan gynnwys y rhai sy'n ymwneud â'r canlynol: cymryd rhan mewn gweithgareddau celfyddydau, diwylliant a threftadaeth; gallu siarad Cymraeg; ymdeimlad o berthyn i'r ardal leol; statws diogelu ac achredu asedau treftadaeth; a chymryd rhan mewn chwaraeon ([Llywodraeth Cymru, 2019](#)). Mae dangosyddion cenedlaethol eraill sy'n gysylltiedig â llesiant diwylliannol yng nghyhoeddiadau Llywodraeth Cymru yn cynnwys y rhai sy'n ymwneud â dylanwad canfyddedig unigolion dros benderfyniadau lleol; cyfraddau gwirfoddoli; a statws asedau naturiol ac ecosystemau. Mae hyn yn cynnig dealltwriaeth gychwynnol eang iawn o lesiant diwylliannol. Bydd angen diffiniad mwy penodol i sicrhau y gall Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ystyried llesiant diwylliannol yn ddigonol.

Yn Seland Newydd, lle mae'n ofynnol i lywodraeth leol hyrwyddo llesiant diwylliannol, mae'r Weinyddiaeth Diwylliant a Threftadaeth yn ei ddiffinio fel a ganlyn:

“The vitality that communities and individuals enjoy through participation in recreation, creatives and cultural activities [and] the freedom to retain, interpret and express their arts, history, heritage and traditions.”

[Gweinyddiaeth Diwylliant a Threftadaeth Seland Newydd, n.d](#)

Mae'r diffiniad hwn yn awgrymu rhai o brif nodweddion llesiant diwylliannol a fydd yn ganolbwynt i'r papur briffio hwn, gan gynnwys rhai o'r prif fathau o weithgarwch a ystyrir. Ond mae hefyd yn cyfeirio at rai o'r ffyrdd y gellir deall llesiant diwylliannol, o ran cyfranogiad unigolion a grwpiau mewn mathau penodol o weithgareddau, ac o ran llesiant diwylliannol fel nodwedd o gymunedau â threftadaeth a thraddodiadau a rennir.

Un ffordd o ddeall hyn yw gwahaniaethu rhwng **canlyniadau llesiant diwylliannol i unigolion a llesiant diwylliannol fel nodwedd o gymunedau**. Gall canlyniadau llesiant i unigolion fod yn newidiadau mewn llesiant goddrychol sy'n cael eu gyrru gan (neu sy'n gysylltiedig â) mynychu neu gymryd rhan mewn gweithgareddau 'diwylliannol'; mae'r rhain ymhlith yr agweddau ar lesiant diwylliannol a astudiwyd yn fynych ac y ceir digon o dystiolaeth ohonynt. Ond mae rhai ffyrdd hefyd o 'fyw'n dda gyda'i gilydd' sy'n amlygu ar lefel gymunedol, o ganlyniad i'r berthynas rhwng unigolion, lle, treftadaeth a diwylliant ([Atkinson et al., 2017](#)).

Gellid ystyried hyn fel cymryd golwg llai 'offerynnol' ar ddiwylliant – gan ei weld fel rhywbeth mwy gwerthfawr na'i effeithiau ar unigolion. Er enghraifft, gall hyrwyddo iaith a diwylliant Cymru arwain at ganlyniadau llesiant gwell, ond mae'n nod pwysig (ac yn ofyniad statudol) yn ogystal.¹

Gan hynny, bydd angen i ran o fynd i'r afael â llesiant diwylliannol fynd y tu hwnt i ganlyniadau llesiant unigol ac edrych ar y cymunedau a'r diwylliannau lle mae unigolion wedi eu gwreiddio, a thrwy hynny gellir gwireddu ffyniant unigolion a chymunedau.

Tybir yn aml bod cymuned yn cynnwys 'grŵp o bobl sydd wedi eu rhwymo'n ddaearyddol ar raddfa leol sy'n destun rhyngweithio uniongyrchol neu anuniongyrchol â'i gilydd' ([Atkinson et al., 2017](#)). Y diffiniad hwn sy'n debygol o fod y cysyniad mwyaf priodol o gymuned ar gyfer Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus. Fodd bynnag, mae mathau eraill o gymuned y gellir dweud bod pobl yn perthyn iddynt, gan gynnwys is-grwpiau o fewn poblogaethau sy'n seiliedig ar gyflogaeth, nodweddion a rennir neu ddiddordebau. Bydd pob un o'r rhain yn dylanwadu ar lesiant goddrychol unigolion ([Atkinson et al., 2017](#)). Yn yr un modd, gall y cysylltiadau sy'n dod â phobl at ei gilydd fod yn wahanol ar draws cymunedau. Gall cymunedau gwledig gael eu rhwymo gan gysylltiadau cymdeithasol yn fwy na chymunedau trefol mwy, lle gall seilwaith neu weithgarwch trefnedig fod yn fwy tebygol o ddod â phobl at ei gilydd ([Havers et al., 2021](#)).

Mae troi at gydnabod y berthynas a'r rhyngweithiadau y gellir dweud eu bod yn rhagflaenu'r syniad o 'unigolion' ar wahân (sydd wedi eu diffinio'n rhannol drwy'r cydberthnasau hyn) yn ein galluogi i ddeall cymunedau fel rhywbeth mwy na swm yr unigolion sy'n cymryd rhan ynddo ([Atkinson et al., 2020](#)). Rhywbeth sy'n arbennig o berthnasol i ddibenion y papur briffio hwn yw dimensiwn 'wedi ei esgeuluso' o barhad cymunedol a newid dros amser.

Mae dwy ffordd wahanol o fframio llesiant: 'ewdaimonig' a 'hedonig'. Mae mabwysiadu dull 'ewdaimonig' yn blaenoriaethu cyflawni ystyr a phwrpas fel rhan allweddol o lesiant. Gallai'r dull hwn felly bwysleisio'r ffyrdd mae lleoedd yn 'ymgorffori ystyr', gan gynnwys drwy sicrhau bod treftadaeth a diwylliant lleol yn cael eu cadw ([Atkinson et al., 2020](#)). Mae hyn yn gwrthgyferbynnu â barn 'hedonig' am lesiant, sy'n pwysleisio'r manteision mwyaf posibl o brofiadau pleserus ac osgoi rhai poenus.

Mae'n bwysig nodi, yn ymarferol, fod mesurau llesiant goddrychol yn gyffredinol yn cyfuno llesiant hedonig ac ewdaimonig. Canfu Disabato et al. ([2015](#)) fod cysylltiad cryf rhwng llesiant hedonig ac ewdaimonig – gan awgrymu bod y ddau yn rhan o adeiladwaith llesiant cyffredinol, er y gallai hyn fod o ganlyniad i'r modd y caiff y mathau hyn o lesiant eu mesur.

¹ Mae diolch yn ddyledus i Deborah Hardoon (What Works Wellbeing) am awgrymu'r eglurhad hwn.

Er enghraifft, mae'n gyffredin mesur llesiant hedonig o ran pa mor foddhaol mae unigolyn yn canfod ei fywyd ([Disabato et al., 2015](#)). Yn ymarferol, mae asesiad unigol o foddhad bywyd yn debygol o gynnwys teimladau o ystyr a phwrrpas. Gan hynny, mae'n anodd mesur y gwahaniaeth.

Fodd bynnag, mae'n bosibl y bydd yn parhau i fod yn ddefnyddiol fel fframwaith ar gyfer deall sut i hyrwyddo llesiant, yn enwedig gan fod arwyddion bod cymhellion ewdaimonig yn 'ymwneud yn gryfach â llesiant' na rhai hedonig ([Disabato et al., 2015](#)). Mae arwyddion hefyd bod cymhellion ewdaimonig yn arwain at lesiant hirdymor uwch, tra bod cymhellion hedonig yn hyrwyddo effaith tymor byr a theimladau o fodlonrwydd bywyd ([Henderson et al., 2013](#)).

Drwy integreiddio'r holl syniadau hyn, mae'n bosibl ymwneud â llesiant diwylliannol o nifer o onglau (gweler [Tabl 1](#)).

Er na fydd y papur briffio hwn yn mynd i'r afael â phob un o'r onglau hyn, bydd yn edrych ar lesiant sy'n canolbwyntio ar y gymuned, drwy lens asedau diwylliannol anniriaethol, a chanlyniadau llesiant unigol sy'n gysylltiedig â gweithgareddau penodol. Mae'r papur briffio hefyd yn ymdrin â rôl treftadaeth naturiol, hamdden awyr agored a chefnogi'r iaith a'r diwylliant Cymraeg. Gellir deall pob un drwy lens llesiant unigolion neu gymunedol, ond mae'n bwysig ei ystyried ynddo ei hun.

Tabl 1: Ffyrdd gwahanol o ddeall llesiant diwylliannol

Sut mae diwylliant yn cael ei ddeall			
Sut mae llesiant yn cael ei ddeall	Unigol ac ewdaimonig		Cymunedol ac ewdaimonig
	- Deellir diwylliant o ran gweithgareddau ar wahân mae unigolion yn cymryd rhan ynddynt. - Diffinnir llesiant o ran teimladau o ystyr a phwrrpas.		- Ystyrir bod diwylliant yn nodwedd o fywyd cymunedol sy'n deillio o'r rhyngweithio rhwng unigolion, lle a threftadaeth. - Diffinnir llesiant o ran teimladau o ystyr a phwrrpas.
	Unigol a hedonig		Cymunedol a hedonig
	- Deellir diwylliant o ran gweithgareddau ar wahân mae unigolion yn cymryd rhan ynddynt. - Diffinnir llesiant o ran pleser goddrychol.		- Ystyrir bod diwylliant yn nodwedd o fywyd cymunedol sy'n deillio o'r rhyngweithio rhwng unigolion, lle a threftadaeth. - Diffinnir llesiant o ran pleser goddrychol.

2. Beth sy'n cyfrannu at lesiant diwylliannol mewn cymuned?

2.1. Rôl asedau diwylliannol anniriaethol

Gellir mynegi llesiant diwylliannol mewn cymunedau drwy nifer o nodweddion, gan gynnwys cyfranogiad cymunedol mewn digwyddiadau, defodau a rennir, gwirfoddoli a threftadaeth, a rhyngweithio â'r amgylchedd adeiledig. Gellir mynegi a deall llawer o'r pethau hyn drwy rôl asedau diwylliannol anniriaethol. Mae'r rhain yn cynnwys 'gweithgareddau ac arferion traddodiadol, iaith a mynegiant diwylliannol, a gwybodaeth a sgiliau diwylliannol sy'n rhan bwysig o fywydau pobl' ([Mansfield et al., 2019](#)). Gall asedau eraill sy'n dod o dan y diffiniad hwn gynnwys normau a gweithgareddau diwylliannol; gwyliau, credoau a defodau; chwaraeon traddodiadol; a chelf a chrefft.

Y cysylltiad rhwng asedau diwylliannol anniriaethol, cymunedau a llesiant yw bod asedau diwylliannol anniriaethol yn eiddo cymunedol cynhenid. Mae hyn yn golygu, ym mhob achos bron, na ellir eu lleihau i gyfranogiad unigol, gan eu bod yn cael eu trosglwyddo a'u hatgynhyrchu drwy gymunedau. Er enghraifft, mae'r Gymraeg yn ased diwylliannol anniriaethol sy'n gofyn am gymuned o siaradwyr Cymraeg, neu ni chaiff ei siarad.

Gall hyrwyddo'r asedau hyn wella llesiant cymunedol a gwella teimladau o falchder cymunedol, hunanhyder diwylliannol a chenedlaethol, ac ymdeimlad o gyd-dynnu a phwrrpas ([Aydemir et al., 2019](#); [Liu and Li, 2020](#)). Gall hyn fod oherwydd bod asedau o'r fath yn adeiladu ar hunaniaethau cymdeithasol a chyddestun cymunedol presennol. Gan hynny, gall archwilio'r asedau hyn atgyfnerthu cysylltiadau grŵp a chreu bondiau cymunedol cryfach. Felly, gall hyrwyddo asedau diwylliannol anniriaethol chwarae rhan mewn meithrin cymunedau cydlynol a ffyniannus drwy hyrwyddo perthyn i Gymru a diwylliant Cymru. Dengys tystiolaeth y gall 'ymdeimlad o berthyn i dreftadaeth gyffredin' ategu llesiant ([Mansfield et al., 2019](#)). Gan hynny, mae hyrwyddo a rhannu treftadaeth gyffredin yn weithgaredd cynhwysol:

'Gan ei fod yn cael ei gydnabod fel rhywbeth sy'n gyffredinol yn ei hanfod, waeth beth fo'r gwahaniaethau diwylliannol, mae treftadaeth yn annog ymdeimlad ehangach o'r cyfunol, drwy'r parch cyfatebol at eraill, a diddordeb ynddynt.' ([Aydemir et al., 2019](#))

Yn yr un modd, gall cymryd rhan a rhannu gweithgareddau celfyddydol a diwylliannol traddodiadol mewn cymunedau lleiafrifol neu gyda grŵp ehangach wella llesiant grwpiau lleiafrifoedd ethnig ([Mansfield et al., 2019](#)).

O safbwynt llesiant goddrychol, mae rhywfaint o dystiolaeth i awgrymu bod cymryd rhan mewn gweithgareddau diwylliannol anniriaethol yn gwella cysylltiadau cymdeithasol ac yn darparu adnoddau i ymdopi â heriau bywyd ([Mansfield et al., 2019](#)).

Mae rhywfaint o ymchwil yn awgrymu y gall cymryd rhan mewn gweithgareddau diwylliannol anniriaethol wella cydnerthedd hefyd, yn enwedig mewn cymunedau ac unigolion sydd wedi profi trawma ([Mansfield et al., 2019](#)). Gallai hyn gynnwys poblogaethau ffoaduriaid a phobl sydd wedi cael eu herlid (er enghraifft, dioddefwyr trais domestig neu gam-drin rhywiol).

Yn yr un modd, mae rhywfaint o dystiolaeth o Napoli yn yr Eidal y gall diwylliant a hanes lleol chwarae rhan yn y ffordd mae trigolion yn ymateb i drallod ac y gall 'profiadau ystyrion a rennir a mathau o gydnerthedd sy'n benodol i ddiwylliant' ategu llesiant ([Cocozza et al., 2020](#)). Mae ymchwil yn Seland Newydd yn awgrymu bod glynu wrth fathau diwylliannol-benodol o gof cymdeithasol ac asedau diwylliannol anniriaethol wedi bod yn ffactor allweddol o ran cydnerthedd ymhlith rhai grwpiau Māori ([Pomeroy, 2016](#)). Yn nes adref, mae 'mwynhad o ddiwylliant a thraddodiadau fy nghymuned' yn gysylltiedig â chyfraddau is o salwch meddwl yng Nghymru, gan gynnwys ymhlith oedolion sydd wedi profi un neu ragor o brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod ([Hughes et al., 2018](#)).

Blwch 1: 'Ymdeimlad o le': sut gall asedau diwylliannol anniriaethol lywio strategaeth economaidd

Canfu Urquhart ac Acott (2014) gysylltiad rhwng diwydiannau lleol hanesyddol a hunan-ddealltwriaeth ddiwylliannol mewn cymunedau pysgota yng Nghernyw. Ystyrir mai pysgota yw calon cymunedau lleol a rhywbeth sy'n benderfynnydd allweddol o hunaniaeth ddiwylliannol a threftadaeth gorfforol, yn ogystal â darparu ffordd i ryngweithio cymdeithasol ddigwydd a chynnal cymunedau cydlynol. Hyd yn oed mewn ardaloedd lle nad yw pysgodfeydd bellach yn gyflogwyr mawr, mae pwysigrwydd diwylliannol y diwydiannau hyn yn dod â chymunedau at ei gilydd. Yng Nghymru, gallai amcanion llesiant nodi diwydiannau sydd yr un mor bwysig yn ddiwylliannol – a allai gynnwys, yn dibynnu ar y cyd-destun lleol, pysgodfeydd, amaethyddiaeth a diwydiant trwm – a sicrhau bod llesiant diwylliannol yn cael ei ystyried fel rhan o strategaeth economaidd y dyfodol.

Gyda'r dystiolaeth yn dangos bod cymryd rhan mewn gweithgareddau diwylliannol anniriaethol hefyd yn atgyfnerthu ymdeimlad o obaith ar gyfer y dyfodol, gallai hefyd chwarae rhan allweddol yn y gwaith o adfywio ac atgyfnerthu cymunedau sydd dan ddirwasgiad economaidd neu sy'n ddifreintiedig yn ehangach. Un enghraifft o hyn yw tref Pleternica yn Croatia, sydd wedi dewis strategaeth ddatblygu o amgylch bećarac, y ffurf canu gwerin draddodiadol sy'n gysylltiedig â'r rhanbarth ([Aydemir et al., 2019](#)). Mae hyn yn cynnwys amgueddfa a sefydlwyd ar y cyd â phobl leol a chyfres o ddigwyddiadau a gynlluniwyd i gynnal perthnasedd a hyfywedd y traddodiad, gan hefyd anelu at ddarparu manteision llesiant i gymunedau lleol. Yn ogystal â manteision llesiant a chadw asedau diwylliannol anniriaethol, bwriedir i'r amgueddfa a'r strategaeth dreftadaeth gysylltiedig hefyd ddenu buddsoddiad a hyrwyddo datblygu economaidd.

Yn olaf, mae cysylltiadau rhwng asedau diwylliannol anniriaethol a'r amgylchedd treftadaeth adeiledig a all gyfrannu at lesiant unigolion a chymunedol. Er enghraifft, mae adeiladau eglwys yn cynnal ystorfa o wybodaeth, cred a thraddodiadau diwylliannol lleol – yn dyddio'n ôl ganrifoedd lawer mewn rhai achosion. Mae cymryd rhan wythnosol mewn gweithredoedd addoli o fudd i lesiant unigolion, o bosibl drwy newidiadau agweddol, ymdeimlad o ddiben, a chysylltiadau cymdeithasol ([Gramatki a Watt, 2021](#)).

Ar yr un pryd, mae adeiladau eglwysig fel sefydliadau yn darparu llawer o werth cymdeithasol a buddion o ran llesiant i gymunedau drwy wasanaethau fel banciau bwyd, cyfleoedd gwirfoddoli a gweithgareddau addoli ([Gramatki et al., 2020](#)). Gan hynny, bydd rhoi sylw i fanteision asedau diwylliannol anniriaethol o ran llesiant hefyd yn gofyn am ganolbwyntio ar ryngweithio rhwng elfennau anniriaethol a diriaethol, a sut gellir defnyddio'r amgylchedd adeiledig i hwyluso llesiant cymunedol. Gallai hyn fanteisio ar fanteision cydnabyddedig asedau treftadaeth i gymunedau, cydlynad cymdeithasol a bywyd diwylliannol, yn ogystal â llesiant unigolion ([Historic England, 2020](#)).

Gan hynny, mae asedau diwylliannol anniriaethol yn rhannau pwysig o lesiant diwylliannol cymunedol sy'n haeddu sylw. Bydd hyn yn bwysig i bob rhan o Gymru, ond yn enwedig cymunedau sydd wedi eu tangynrychioli neu eu hesgeuluso'n hanesyddol, yn enwedig ers dechrau'r cyfnod ôl-ddiwydiannol. Gan hynny, gallai'r cymunedau hyn ddefnyddio asedau diwylliannol anniriaethol i wella canlyniadau llesiant goddrychol i unigolion, adeiladu a chynnal cymunedau ffyniannus, a darparu cyfleoedd ar gyfer twf economaidd a chydnerthedd.

3. Sut mae cymryd rhan mewn gweithgareddau diwylliannol yn effeithio ar lesiant goddrychol?

3.1. Canfyddiadau cyffredinol a chyfraddau cyfranogiad

Gan symud tuag at lesiant goddrychol ac i ffwrdd o ffocws ar lefel gymunedol, cynhaliwyd ymchwil ar effaith presenoldeb a chyfranogiad mewn rhai gweithgareddau diwylliannol ar lesiant unigolion.

Wrth asesu effaith gweithgareddau diwylliannol ar lesiant goddrychol, mae'n bwysig gwahaniaethu rhwng **mynd i weithgareddau diwylliannol** a **chymryd rhan mewn** gweithgareddau diwylliannol, oherwydd gall y rhain gael effeithiau gwahanol ar lesiant goddrychol: er enghraifft, y gwahaniaeth rhwng mynd i weld arddangosfa mewn oriel, a chreu gwaith celf.

Yn gyffredinol, mae pobl yng Nghymru sy'n mynychu neu'n cymryd rhan mewn gweithgareddau diwylliannol yn rheolaidd yn fwy tebygol o adrodd am lesiant goddrychol uwch ac yn llai tebygol o adrodd am lesiant goddrychol isel ([Browne Gott, 2020](#)). Canfu Wheatley a Bickerton ([2017](#)) hefyd fod cyfranogiad neu bresenoldeb mewn digwyddiadau celfyddydol a diwylliannol yn gysylltiedig â lefelau uwch o lesiant goddrychol, er bod hyn yn amrywio yn dibynnu ar y gweithgaredd. Fodd bynnag, mae'n bwysig gweld canlyniadau o'r fath ar y cyd â ffactorau demograffig eraill a allai ddylanwadu ar lesiant goddrychol. Trafodir hyn ymhellach [isod](#).


Cesglir data fel rhan o Arolwg Cenedlaethol Cymru yn unol â'r dangosyddion cenedlaethol a roddwyd ar waith o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

O ran cyfranogiad, mesurir hyn fel canran y bobl sy'n mynychu digwyddiadau celfyddydol, diwylliant neu dreftadaeth dair gwaith y flwyddyn neu'n amlach na hynny ('presenoldeb rheolaidd') a chanran y bobl sy'n cymryd rhan mewn digwyddiadau chwaraeon o leiaf dair gwaith yr wythnos ([Llywodraeth Cymru, 2016](#)). [Mae Ffigur 1](#) yn dangos canran y bobl a fynychodd yn rheolaidd yn y ddwy flynedd y casglwyd data ar gyfer y dangosydd hwn, sef 2017 a 2019, yn ôl awdurdod lleol.


Yn 2019–20, mynychodd 71% o bobl weithgareddau celfyddydol, diwylliannol neu dreftadaeth yn rheolaidd, a chymerodd 32% o bobl ran yn rheolaidd mewn gweithgareddau chwaraeon ([Llywodraeth Cymru, 2020](#)). [Mae Ffigur 2](#) yn dangos y mathau o weithgarwch a fynychwyd amlaf, gyda sioeau ffilm yn fwyaf poblogaidd (54% o bobl). Cafwyd ymatebion poblogaidd i theatr a cherddoriaeth fyw hefyd.

Yn 2017–18, mynychodd 68% o bobl ddigwyddiadau tra bod 22% wedi cymryd rhan mewn digwyddiadau, er i'r rhai a gymerodd ran wneud hynny'n rheolaidd, gyda 52% yn gwneud hynny unwaith yr wythnos neu'n amlach na hynny ([Llywodraeth Cymru, 2018](#)). Yn 2019–20, cymerodd 19% ran tra bod 70% yn mynychu digwyddiadau ([Arolwg Cenedlaethol Cymru, 2019–20](#)).

Ffigur 1: Canran y bobl a fynychodd weithgareddau celfyddydol, diwylliant neu dreftadaeth yn rheolaidd yn ôl awdurdod lleol ac yng Nghymru, 2017 a 2019 (Data Cymru, 2021)²



Ffigur 2: Canran y bobl sy'n mynychu mathau o ddigwyddiadau celfyddydol, ac eithrio ymatebion digymell, 2019-20 (Arolwg Cenedlaethol Cymru, 2019-20)



² I gael mwy o wybodaeth am ffynonellau data ac argaeledd gweler yr [Atodiad](#).

Mae'n ymddangos bod daearyddiaeth a/neu argaeledd digwyddiadau yn lleol yn ffactor, gyda 51% yn cytuno (yn gryf neu'n tueddu i gytuno) y byddent yn mynychu'n amlach pe bai digwyddiadau'n agosach ([Arolwg Cenedlaethol Cymru, 2019–20](#)). Mae hyn yn awgrymu, mewn ardaloedd lle mae lefelau presenoldeb is ar hyn o bryd (gweler [Ffigur 1](#)), y gellid gwneud mwy i ddenu digwyddiadau a chyfleoedd.

O ran chwaraeon, mae ffigurau 2017–18 hefyd yn dangos bod 32% wedi cymryd rhan dair gwaith yr wythnos neu'n amlach na hynny, gyda 50% yn cymryd rhan o leiaf unwaith yr wythnos ([Llywodraeth Cymru, 2018](#)). Roedd y chwaraeon mwyaf cyffredin yn cynnwys cerdded, nofio, y gampfa neu weithgareddau ffitrwydd, loncian, pêl-droed a beicio ([Llywodraeth Cymru, 2018](#)). Roedd 55 y cant o Gymry yn dymuno gwneud mwy o chwaraeon neu weithgarwch corfforol, ac roedd llai na hanner yn teimlo bod ganddynt fynediad da at glybiau iechyd neu chwaraeon ([Llywodraeth Cymru, 2018](#)).

3.2. Effaith gweithgareddau penodol ar lesiant goddrychol

Mae rhywfaint o dystiolaeth o effaith cymryd rhan mewn gwahanol weithgareddau diwylliannol ar lesiant goddrychol unigolyn. Cynhaliwyd astudiaethau ar draws sbectwm o weithgareddau, er, o ystyried ehangder a chwmpas cyfranogiad posibl, mae ansawdd y dystiolaeth yn amrywio ac yn tueddu i ganolbwyntio ar weithgareddau penodol yn fwy nag eraill. Yn ogystal, mae ymchwil yn aml yn canolbwyntio ar fanteision cyfranogiad ar gyfer is-grwpiau poblogaeth, ac mae diffyg dystiolaeth gadarn benodol ar bresenoldeb mewn digwyddiadau diwylliannol o'i gymharu â chyfranogiad mewn digwyddiadau a gweithgareddau diwylliannol ([Browne Gott, 2020](#)).

Mae What Works Wellbeing wedi cynnal adolygiadau systematig o effaith cymryd rhan mewn digwyddiadau cerddorol fel canu mewn grwpiau, ac effaith cymryd rhan yn y celfyddydau gweledol ar iechyd meddwl.

Mae tystiolaeth o ansawdd uchel yn dangos y gall gwrando ar gerddoriaeth gynyddu llesiant oedolion ifanc; y gall cymryd rhan mewn gweithgareddau canu mewn grwpiau fod yn arbennig o fuddiol i bobl hŷn; ac y gall therapi cerddoriaeth strwythuredig leihau canlyniadau llesiant negyddol i fenywod beichiog ([Daykin et al., 2016a](#)). Mae'r un astudiaeth yn awgrymu y gall cymryd rhan mewn cerddoriaeth leihau iselder (ond nid gorbryder) mewn pobl iach.

Atgyfnerthir manteision iechyd meddwl posibl cymryd rhan mewn gweithgareddau celfyddydol, diwylliant a threftadaeth gan adolygiad systematig ar wahân sy'n edrych ar effaith cyfranogiad y celfyddydau gweledol ar bobl sy'n dioddef o faterion iechyd meddwl ([Tomlinson et al., 2018](#)). Yn nodedig, roedd yr adolygiad hwn yn hyderus y gall cyfranogiad yn y celfyddydau gweledol gynyddu llesiant goddrychol yn y grŵp hwn drwy ddatblygu cyfalaf cymdeithasol 'bondio' a all gynyddu hunanhyder, cyswllt cymdeithasol a mwy o ymdeimlad o'r hunan ([Tomlinson et al., 2018](#)). Gall y gwelliannau hyn i lesiant ddeillio o'r cysylltiadau cymdeithasol a'r cyfleoedd i ddatblygu bondiau sy'n deillio o'r sesiynau. Mae hyn yn awgrymu y gallai gweithgareddau grŵp fod yn well na rhai unigol ar gyfer gyrru gwelliannau llesiant.

Cysylltir gweithgareddau treftadaeth â llesiant goddrychol uwch, a gweithgareddau yn y gymuned. Gall byw mewn ardaloedd 'hanesyddol' gyfrannu at lesiant cymunedol drwy gynyddu lefelau cyfalaf cymdeithasol, cysylltiad ac 'ymdeimlad o le' ([Pennington et al., 2019](#)).³

³ Cf. y drafodaeth uchod ar sut gall hyrwyddo asedau diwylliannol anniriaethol a threftadaeth helpu i hyrwyddo llesiant diwylliannol cymunedol.

Blwch 2: Defnyddio cerddoriaeth i gefnogi oedolion â chyflyrau iechyd: gwella llesiant a chanlyniadau iechyd

Mae rhywfaint o dystiolaeth y gall gwrando ar gerddoriaeth a chymryd rhan mewn cerddoriaeth wella canlyniadau iechyd meddwl a llesiant i bobl â chyflyrau iechyd cronig, yn ogystal ag ar gyfer oedolion hŷn ([Daykin et al., 2016b](#)).

Yn ddiddorol, ceir tystiolaeth o ansawdd cymedrol y gall rhaglenni cerddoriaeth gyfranogol gynorthwyo i adsefydlu oedolion ag amrywiaeth o gyflyrau ([Daykin et al., 2016b](#); [Batt-Rawden a Tellnes, 2011](#); [Batt-Rawden, 2006](#)). Canfu astudiaeth hydredol yn Norwy y gallai cerddoriaeth (hunan-ddethol) gefnogi oedolion i gynyddu dwyster ac amllder eu gweithgarwch corfforol – er enghraifft, cerdded neu fathau eraill o ymarfer corff, ac felly cyfrannu at adsefydlu ([Batt-Rawden a Tellnes, 2011](#)). Ond gall hefyd gefnogi llesiant meddyliol a'r penderfyniad i newid arferion a chanolbwyntio ar hunan-wella a hunanofal. Awgryma Batt-Rawden y gall y weithred o ddewis cerddoriaeth a'i defnyddio i gefnogi adsefydlu wella teimladau o gyfrifoldeb personol a chymryd rhan mewn triniaeth, a gall gyfrannu at oresgyn yr ymdeimlad bod meddygoli yn cael ei weld fel rhywbeth sy'n amharu ar fywydau pobl ([Batt-Rawden, 2006](#)). Gan hynny, gallai ymgorffori cyfranogiad diwylliannol mewn adferiad arwain at fanteision i iechyd y cyhoedd a helpu i gyflawni amcanion llesiant cyffredinol.

Gall hyn ddigwydd drwy ymweld â safleoedd treftadaeth. Mae gweithgareddau treftadaeth ymarferol – er enghraifft, prosiectau ymgysylltu cymdeithasol a chynhwysiant a phrosiectau treftadaeth gymunedol, yn gysylltiedig â manteision ychwanegol. Mae hyn yn golygu y dylai hyrwyddo gwerth asedau diwylliannol anniriaethol (gweler uchod) hefyd gynnwys cyfleoedd i wirfoddoli.

Gall gwirfoddoli gynorthwyo cydlynad cymdeithasol a chysylltiad yn ogystal â gwella llesiant goddrychol gwirfoddolwyr ([Boelman, 2021](#)). Mae'n ymddangos bod effaith gwirfoddoli ar lesiant yn gysylltiedig â ffactorau ewdaimonig fel ymdeimlad o bwrpas, hyder yn ei galluoedd eich hun, a'r cysylltiadau cymdeithasol a ffurfiwyd drwy wirfoddoli ([Stuart ac Abreu Scherer, 2020](#)). Fodd bynnag, bydd hyn yn dibynnu ar sut caiff profiad y gwirfoddolwr ei reoli, fel pe na bai gwirfoddolwyr yn teimlo bod eu gwaith yn cael ei werthfawrogi neu'n effeithiol ni fyddant yn cael yr un manteision llesiant.

Yng Nghymru, mae profiad grwpiau cymunedol yn ystod pandemig Covid-19 yn awgrymu y gall grwpiau sy'n seiliedig ar leoedd a diddordebau helpu i leddfu unigrwydd a rhoi ymdeimlad o bwrpas ([Havers et al., 2021](#)).

Gall rhaglenni allgymorth gael effaith gadarnhaol ar iechyd a llesiant: mewn astudiaeth ar amgueddfeydd yn Llundain a Kent, dywedodd oedolion hŷn sydd wedi eu hynysu'n gymdeithasol eu bod nhw'n teimlo eu bod nhw wedi eu hysgogi'n feddyliol ac yn fwy egniol yn gorfforol drwy gael rhywbeth i ysgogi gweithgarwch ([Todd et al., 2017](#)).

Mae cyfranogiad rheolaidd mewn chwaraeon (efallai'n annisgwyl) yn gysylltiedig â mwy o iechyd corfforol, gyda'r cynnydd mwyaf a welwyd yn y rhai a ymgwymerodd â chwaraeon o linell sylfaen isel ([Lakey et al., 2017](#)). Roedd cyfranogiad mewn chwaraeon hefyd yn gwella iechyd meddwl yn ôl cofnodion personol ([Lakey et al., 2017](#)). Mae manteision llesiant cyfranogiad chwaraeon ar eu huchaf pan fydd cyfranogwyr yn cymryd rhan o leiaf bob wythnos (fel gyda gweithgareddau addoli, a ddisgrifir uchod), gan awgrymu y dylid cymryd camau i hwyluso gweithgarwch rheolaidd neu arferol mewn cymunedau ([Gramatki a Watt, 2021](#)).

Er bod y dystiolaeth yn aml yn gyfyngedig, mae cysylltiad cyson rhwng cymryd rhan mewn digwyddiadau celfyddydol, diwylliannol, treftadaeth neu chwaraeon a lefelau uwch o lesiant goddrychol. Gan fod rhywfaint o dystiolaeth y gall lleoliad ffisegol digwyddiadau fod yn rhwystr, dylai Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus weithredu i gefnogi digwyddiadau celfyddydol, diwylliant, treftadaeth a chwaraeon lleol, gan sicrhau bod y rhain yn rhesymol hygyrch. At hynny, gall darparu adnoddau i gynorthwyo grwpiau cymunedol, rhwydweithiau a grwpiau diddordeb i ymgysylltu a chysylltu â phobl fod yn ffordd dda o ategu llesiant a chynyddu cyfraddau cyfranogi ([Havers et al., 2021](#)).

3.3. Treftadaeth naturiol a hamdden awyr agored

